CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 9 MEHEFIN AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Stryd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), E. Stenner (Cwsmeriaid, Perfformiad a Gwasanaethau Eiddo), R. Whiting (Dysgu a Hamdden) ac A. Whitcombe (Cynaladwyedd, Cynllunio a Fflyd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd).

Yn bresennol hefyd:

A. Cullinane (Uwch-Swyddog Polisi), S. Foley (Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol), L. Lucas (Pennaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Digidol), J. Lougher (Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), S. Ellis (Swyddog Arweiniol dros Gynhwysiant ac ADY), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Swyddog Arweiniol Strategol dros Wella Ysgolion), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Gyrrwr) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Cynghorwyr C. Mann

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol o'r ffaith bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ond na fyddai ffrwd fyw ohono, fodd bynnag, byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod trwy wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan S. Morgan (Economi a Menter a Seilwaith) ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151).

2. DATGELU BUDDIANNAU

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 21 EBRILL 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 yn gofnod cywir.

4. CABINET ARBENNIG – 19 MAI 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 yn gofnod cywir.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi manylion yr adroddiadau a drefnwyd ar gyfer 21 Gorffennaf 2021. Atgoffwyd yr aelodau o'r ffaith bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly, y gallai newid. O ganlyniad, cytunodd y Cabinet y dylid gohirio'r Adroddiad Refeniw Amodol i'w gyflwyno ar 23 Mehefin 2021, tan 7 Gorffennaf 2021.

Ar ôl ystyried a thrafod hyn, cynigiwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

6. STRATEGAETH TGCH ARFAETHEDIG

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ddrafft a'r map trywydd cyflawni cysylltiedig i'r Cabinet.

Nodwyd bod Strategaeth TGCh ddrafft y Gwasanaethau Digidol (y Strategaeth) a oedd ynghlwm wrth adroddiad y Swyddogion yn cynnig y map trywydd, y cyfeiriad a'r arweiniad ar gyfer datblygiadau TGCh yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y bum (5) mlynedd nesaf.

Roedd y Strategaeth yn amlinellu sut y bydd Gwasanaethau Digidol yn datblygu ei wasanaeth er mwyn cynorthwyo Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol yr Awdurdod trwy gyfrwng technolegau arloesol a fydd yn trawsnewid y ffordd y darparir gwasanaethau a chan amlygu sut y bydd Gwasanaethau Digidol yn ceisio darparu profiad da i'r cwsmer ar draws holl wasanaethau'r Cyngor trwy roi cwsmeriaid wrth wraidd y sefydliad.

Datblygwyd y Strategaeth mewn partneriaeth â phartner cymorth, RedCortex, a fu'n ymgysylltu gyda chydweithwyr ar draws yr Awdurdod er mwyn datblygu'r prif themâu a'r egwyddorion strategol.

Mae'r Strategaeth yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer yr Awdurdod trwy ddiffinio'r daith drawsffurfiol ar gyfer y bum (5) mlynedd nesaf trwy:

- Alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei flaenoriaethau cyfredol ac yn y dyfodol.
- Galluogi ac annog patrymau gwaith hyblyg.
- Cynnig profiad gwell a gofal cwsmer gwell i'r holl gwsmeriaid.
- Symud i dechnolegau a dyfeisiau mwy cost-effeithlon ac ecogyfeillgar
- Darparu amgylchedd seilwaith diogel a chydnerth y gallwn adeiladu arno yn y dyfodol.

- Symud i ddatrysiadau modern sy'n gwella profiad cwsmeriaid, sy'n galluogi defnydd gwell o wybodaeth ac sy'n darparu gwasanaethau gwell.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac i'r Aelod Cabinet am yr adroddiad, a chafwyd trafodaeth. Nodwyd nifer o brosiectau yn yr adroddiad gan yr aelodau, a diolchwyd i'r Swyddogion am eu gwaith caled.

Ar ôl ei ystyried a'i drafod, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn Adroddiad y Swyddogion: -

i) Y dylid cymeradwyo'r Strategaeth TGCh arfaethedig er mwyn symud TGCh a Digidol ymlaen fel galluogwr strategol;

ii) Y dylid nodi'r goblygiadau ariannol a nodir yn adran 8 yr adroddiad;

iii) Y dylid cytuno neilltuo £320,000 o £1.482m cyllid trawsnewid digidol Cronfa Caledi COVID-19 LlC a neilltuwyd i CBS Caerffili, i gronfa wrth gefn a glustnodir, er mwyn talu costau refeniw unigol amcanestynedig er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r strategaeth.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2020-2021

Roedd yr adroddiad yn hysbysu Aelodau ac yn ceisio eu cymeradwyaeth ar gyfer y cynnydd a sicrhawyd yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 yn erbyn pedwar maes penodol o'r gwaith ar y Gymraeg, fel sy'n ofynnol dan y fframwaith rheoliadol er mwyn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Yna, cyhoeddir yr adroddiad ar-lein erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin 2021, fel sy'n ofynnol dan Safon y Gymraeg rhif 158.

Nodwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi adroddiad monitro blynyddol ynghylch gweithredu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg dan ddeddfwriaeth gyfredol ac er mwyn cydymffurfio â Safon 158.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2020-2021 yn ymwneud â phedwar maes gofynnol.

Cwynion gan y Cyhoedd
Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno, yr oeddent yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth gyda'r safonau yr oedd dyletswydd arnoch i gydymffurfio â nhw. Rhif safon ac is-gymal - 147, 148, 149,156, 158*(2)*, 162, 164*(2)*, 168*(a),* 170*(2)(d)*

Sgiliau Ieithyddol y Staff
Nifer y cyflogeion y mae ganddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151); Rhif safon ac is-gymal - 170(*2)(a),* 151

Darparu Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg
Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 152);

Pe baech yn cynnig fersiwn Cymraeg o gwrs yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs, a fynychodd y fersiwn Cymraeg (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 152). Rhif safon ac is-gymal - 170*(2)(b),* 170*(2)(c),* 152

Recriwtio i Swyddi Gwag
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn, a gategoreiddiwyd fel swyddi lle'r oedd:
(i) Sgiliau Cymraeg yn hanfodol
(ii) Angen dysgu sgiliau Cymraeg o gael eich penodi i'r swydd
(iii) Sgiliau Cymraeg yn ddymunol,
(iv) Lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 154);
Rhif safon ac is-gymal - 170*(2)(ch),* 154

Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad i'r Aelodau am sefyllfa bresennol y Cyngor mewn perthynas â gofynion statudol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da a wnaethpwyd gan feysydd gwasanaeth wrth ymwreiddio trefniadau er mwyn darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu capasiti y gweithlu mewn perthynas â'u sgiliau Cymraeg.

Nodwyd ei bod yn amlwg o gynnwys yr adroddiad bod y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Caiff y cynnydd da a'r momentwm ei gynnal trwy barhau i weithio gyda phartneriaid ac ymateb i help, cyngor ac arfer gorau gan Gomisiynydd y Gymraeg a chyrff cenedlaethol a rhanbarthol eraill.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac i'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd yr aelodau sawl pwynt yn yr adroddiad, ac yn arbennig, un o'r cwynion a gafwyd yn ystod Cyfnod Clo Lleol Caerffili. Sicrhawyd y Cabinet gan swyddogion bod yr ohebiaeth yr oedd y gŵyn yn cyfeirio ati yn ymwneud â deunydd cyfathrebu a gyhoeddwyd er mwyn ymateb i'r Pandemig a'r diweddariadau wythnosol a gyhoeddwyd. Sicrhawyd yr aelodau nad oedd y Cyngor yn torri unrhyw safonau oherwydd A46, sy'n cynnig esemptiad wrth gyhoeddi datganiadau i'r wasg mewn argyfwng. Nododd y Cabinet, fodd bynnag, y darparwyd cyfieithiad Cymraeg o'r ohebiaeth cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r wybodaeth.

Ar ôl ystyried a thrafod y mater, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD y dylid nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddogion ac y dylid cymeradwyo'r wybodaeth fel cofnod o'r cynnydd tuag at, a chydymffurfiaeth gyda, Safonau'r Gymraeg perthnasol.

8. CYNLLUN GWIRFODDOLI CYFLOGEION

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 25 Mai 2021 yn ceisio safbwyntiau'r Cabinet am y Cynllun Gwirfoddoli Cyflogeion arfaethedig, ac roedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r Cynllun, gan gynnal adolygiad ar ôl 12 mis ynghylch manteision y Cynllun a'r niferoedd sydd wedi cymryd rhan ynddo.

Nodwyd mai nod y Cynllun Gwirfoddoli Cyflogeion yw cynyddu'r cyfleoedd gwirfoddoli i gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gyda'r budd o ryddhau capasiti cyflogeion i gynorthwyo cymunedau lleol a'r buddion cysylltiedig i les cyflogeion.

Mae'r Cynllun arfaethedig yn cynnwys gwirfoddoli am ddigwyddiad diwrnod/rhan o ddiwrnod neu wirfoddoli dan drefniant mwy hirdymor. Bydd cyflogeion sydd wedi gwirfoddoli dan drefniant mwy hirdymor yn gallu gwneud cais am uchafswm o ddau ddiwrnod o wyliau y flwyddyn.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac aethpwyd ymlaen i'w drafod. Rhoddwyd sylwadau i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu ac roedd y Swyddogion yn cynnig sicrwydd i'r Aelodau, y byddai unrhyw rwystrau y byddai cyflogeion yn eu profi yn cael eu

lleihau gymaint ag y bo modd er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i fanteisio ar y cynllun.

Ar ôl ystyried a chael trafodaeth, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddogion y dylid cymeradwyo'r Cynllun Gwirfoddoli Cyflogeion (gweler atodiad 1), y dylid gweithredu'r Cynllun a chynnal adolygiad cyn pen 12 mis ynghylch manteision y Cynllun a'r niferoedd sy'n manteisio arno.

9. BUDDSODDIAD YM MHARC VIRGINIA / 2IL LOEREN YN ST CENYDD AR GYFER CAE'R DRINDOD

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion 2 fuddsoddiad adeiladu arfaethedig i'r Cabinet, sef datblygiad Parc Virginia yng Nghaerffili ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ac EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) a; buddsoddiad er mwyn darparu 2il ddosbarth lloeren ar gyfer Cae'r Drindod ar safle Ysgol Uwchradd St Cenydd.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y buddsoddiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig ag adeiladu ar 2 safle a nodir ym mharagraff 1.1 adroddiad y Swyddogion i'r Aelodau. Bydd y buddsoddiad yn cynnig mwy o gapasiti er mwyn cynorthwyo rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed. Mae safle Parc Virginia wedi cynnig cyfle i greu lleoliad ym Masn Caerffili ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid, gan ehangu'r capasiti mewnol hefyd ar gyfer rhai o'n disgyblion EOTAS.

Cefnogwyd y buddsoddiad arfaethedig gan y Pwyllgor Craffu Addysg, a darparwyd y manylion yn yr Adroddiad Monitro Cyllideb a gyflwynwyd i'r pwyllgor Craffu ar 22 Mawrth 2021.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad ac aethpwyd ymlaen i'w drafod.

Cafodd yr aelodau wybodaeth ychwanegol gan Swyddogion ynghylch posibiliadau a phrosiectau ychwanegol a'r cymorth y gall y cynllun ei gynnig i bobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, o ddioddef camfanteisio rhywiol a phroblemau iechyd meddwl. Nodwyd y bydd y cynllun yn cynorthwyo i alinio Strategaeth EOTAS a'r Strategaeth Cynhwysiant, gan gefnogi'r nodau ynddynt.

Ar ôl ystyried a chael trafodaeth, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> Am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion, PENDERFYNWYD y dylid cefnogi'r cam o ddefnyddio gwerth £472,000 o Gronfeydd Cyfalaf wedi'u Clustnodi y Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn datblygu Parc Virginia ac er mwyn cael 2il Ddosbarth Lloeren ar gyfer Cae'r Drindod yn Ysgol Uwchradd St Cenydd.

10. POLISI PRISIO CANOLFAN ATHLETAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Roedd yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet ynghylch y polisi prisio ar gyfer Canolfan Athletau newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBS Caerffili) yn Oakdale.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi Grant o £15 miliwn ar gyfer Cronfa Gymunedol ar ddiwedd mis Tachwedd 2018. Roedd y grant hwn ar gael i bob Awdurdod Lleol a sefydliad Addysg Bellach trwy gyfrwng proses ymgeisio.

Cyflwynodd swyddogion Achos Busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn manteisio ar y grant hwn a fu'n llwyddiannus er mwyn adeiladu canolfan athletau i wasanaethu'r Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod y gwaith o adeiladu'r ganolfan athletau ar gaeau'r ysgol yn Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd, sy'n cynnwys 6 lôn 300m a 6 lôn sbrintio syth, bellach wedi cael ei gwblhau. Mae hwn hefyd yn cynnwys trac rhedeg synthetig gyda llifoleuadau, bwa ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn rhai maes e.e. naid uchel, naid hir, taflu maen, gwaywffon a disgen. Roedd y gwaith wedi costio £755,000 at ei gilydd.

Er mwyn manteisio'n llawn ar ddarpariaeth y ganolfan athletau newydd, nododd yr aelodau bod swyddogion wedi gofyn i bobl fynegi diddordeb mewn defnyddio'r ganolfan. Cyn neilltuo unrhyw archebion yn seiliedig ar fynegi diddordeb, gofynnir i'r Aelodau gytuno ar strwythur prisio er mwyn ei weithredu fel rhan o'r cynnig hwn.

Er mwyn datblygu strwythur prisio, mae swyddogion wedi bod yn cynnal ymarfer meincnodi ar draws Cymru ar gyfer darpariaeth o natur debyg, er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch wrth lunio strwythur prisio Caerffili sy'n addas ar gyfer hyd a lled y cynnig chwaraeon ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei chynnwys fel atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Cynhwyswyd y strwythur prisio arfaethedig yn adran 5 Adroddiad y Swyddogion.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth, a diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y gwaith helaeth i ddarparu'r cyfleuster, ac roeddent yn teimlo'n gyffrous ynghylch y manteision niferus y byddai'n eu cynnig i'r cymunedau lleol.

Ar ôl ystyried a chael trafodaeth, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddogion: -

i) Y dylid cymeradwyo'r strwythur prisio a amlinellir yn yr adroddiad i'w weithredu o 1 Gorffennaf 2021;

ii) Y dylid adolygu'r strwythur prisio bob 12 mis ac y dylai unrhyw brisiau newydd gael eu pennu gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol trwy ymgynghori gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet perthnasol.

PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL NAD YDYNT YN DESTUN TREFNIADAU GALW I MEWN

11. TYNNU'R GWASANAETH IEUENCTID ALLAN O'R BRYDLES AR GYFER SEFYDLIAD CRYMLYN A DEFNYDD OHONO

Rhoddodd y Swyddog Monitro fanylion i'r Cabinet am natur frys yr eitem. Roedd yr adroddiad yn amlinellu mai gwaredu Crymlyn yw'r mater mwyaf enbyd o ran asedau adeiladu, a bod cyfyngiadau amser ynghlwm wrth y broses. Os na chaiff y camau angenrheidiol eu cwblhau o fewn yr amserlen, erbyn 25 Mehefin 2021, bydd y gwasanaeth yn cael ei glymu i drefniadau presennol y brydles am o leiaf 5 mlynedd pellach.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhesymeg dros dynnu'r gwasanaeth yn ôl o adeilad a gaiff ei brydlesu gan berchennog preifat. Yr adeilad yw Sefydliad Crymlyn, yng Nghrymlyn, sef hen neuadd Gweithwyr a brydlesir gan y Gwasanaeth Addysg Gymunedol. Mae'r trefniant yn Sefydliad Crymlyn yn rhwym i les 25 mlynedd a gychwynnodd ar 25 Rhagfyr 2011. Cyn 2011, prydleswyd yr adeilad am rent hedyn pupur. Roedd yr adroddiad yn argymell i'r Aelodau y dylai'r Cabinet gymeradwyo tynnu allan ohono, er mwyn bodloni'r dyddiad cau er mwyn tynnu allan o'r brydles, sef 25 Mehefin 2021.

Nodwyd na fyddai trefniant prydles bresennol yn cynrychioli gwerth am arian ac nad oes gofyn cadw'r adeilad er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y rhent wedi cael ei adolygu'n flaenorol cyn yr adnewyddwyd y brydles y tro diwethaf. Adeg adnewyddu'r brydles y tro diwethaf, esboniodd y swyddogion ei bod wedi bod yn dod yn fwy amlwg na fyddai angen yr adeilad dros y blynyddoedd i ddod efallai, ac mae'r pandemig parhaus wedi ychwanegu at y sefyllfa hon. Felly, teimlwyd bod yr ymgynghoriad a safbwynt rhanddeiliaid yn flaenoriaeth ynghylch dyfodol y brydles ar gyfer y safle.

Ar ôl ystyried a thrafod y mater, ac yn unol ag argymhelliad ychwanegol yn *iii)*, cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, ac eiliwyd y cynnig hwn. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddogion ac yn unol ag argymhelliad ychwanegol yn *iii):* -

i) Y dylid cymeradwyo'r cam o dynnu yn ôl o drefniant y brydles;

ii) Y dylai'r Gwasanaethau Cyfreithiol gyhoeddi'r hysbysiad cywir i asiantau rheoli'r eiddo, Ystadau Llanofer, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, a hynny heb fod ar ôl 25 Mehefin 2021.

iii) *Y cytunir y dylid talu'r costau dadfeiliad, yr amcangyfrifir eu bod rhwng £185,000 a £195,000 ar hyn o bryd, o gronfeydd wrth gefn Addysg a Dysgu Gydol Oes.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.24 am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn unol ag unrhyw gywiriadau a wneir yn ystod y cyfarfod a gynhelir ar 23 Mehefin 2021.

_____

CADEIRYDD